Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Preswyl

# Byddwch yn barod am llifogydd

**Mae'r daflen hon yn rhoi ychydig o gyngor ymarferol i chi ynglŷn â'r camau y gallwch eu cymryd cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd. Gall y camau hyn helpu i leihau effaith llifogydd arnoch chi a'ch teulu.**

## Cyn llifogydd

### Canfyddwch a ydych chi ym mherygl dioddef llifogydd

Yng Nghymru, mae tua un o bob chwe eiddo ym mherygl dioddef llifogydd, ac efallai nad yw llawer o'r bobl sy'n byw mewn ardaloedd perygl llifogydd hyd yn oed yn sylweddoli hyn.

Gallwch ganfod a yw'ch eiddo mewn perygl trwy:

- Ffonio Floodline ar 0345 988 1188 neu;
- Ewch i www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/alerts a rhoi eich cod post.
- Gallech hefyd ystyried prynu byrddau llifogydd fel dull atal mwy parhaol. Er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn â phle i brynu offer amddiffyn tymor hir ar gyfer eich cartref, ewch i www.floodforum.org.uk

### Canfyddwch a allwch dderbyn rhybudd

Os ydych chi'n byw neu'n gweithio mewn ardal perygl llifogydd, efallai y gallwch gofrestru i dderbyn rhybuddion rhad ac am ddim ymlaen llaw. Gall hyn ddod dros y ffôn, ar neges destun, trwy e-bost, dros y ffacs neu beiriant galw gyda Gwasanaeth Uniongyrchol Llinell Rhybuddion Cyfoeth Naturiol Cymru. Ffoniwch Floodline heddiw i ddarganfod a yw rhybuddion ar gael yn eich ardal chi. Os nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael i chi, cadwch lygad ar ragolygon y tywydd yn ystod glaw mawr.

### Cymerwch gamau ymarferol i baratoi:

Mae nifer o gamau y gallwch eu cymryd i helpu i baratoi eich eiddo ar gyfer llifogydd. Bydd y rhain yn helpu i arbed amser ac arian yn ystod llifogydd, a gallant hefyd helpu i leihau effaith llifogydd ar eich eiddo.

### Y Cam Cyntaf:

Crëwch gynllun llifogydd personol sy'n cynnwys gwybodaeth bwysig y byddai ei hangen arnoch adeg llifogydd - fel rhifau polisi yswiriant, lleoliadau'r prif gyflenwad nwy, trydan a dŵr, a manylion cyswllt ar gyfer pobl y gallai fod angen cysylltu â nhw adeg argyfwng. Ar ôl ei gwblhau, dylech gadw eich cynllun llifogydd yn rhywle diogel a hawdd ei gyrraedd mewn amlen sy'n medru gwrthsefyll dŵr.

Gallwch lawr lwytho cynllun llifogydd personol yn: www.environment-agency.gov.uk/floodwales

### Yr Ail Gam:

Paratowch becyn llifogydd o eitemau hanfodol y byddai eu hangen arnoch yn ystod llifogydd, neu os bydd angen i chi adael eich eiddo. Dylai eich pecyn llifogydd gynnwys eitemau fel copïau o ddogfennau yswiriant, tortsh a radio weindio, dillad cynnes sy'n atal dŵr, bwyd, dŵr potel a meddyginiaeth. Cadwch eich pecyn llifogydd yn rhywle sy'n hawdd mynd ato os bydd llifogydd neu os bydd angen i chi adael eich eiddo.

### Y Trydydd Cam:

Edrychwch ar eich cartref i ganfod pa ffyrdd y gallai llifddwr ddod i mewn i'r eiddo ac ystyried ffyrdd atal hyn rhag digwydd yn ystod llifogydd. Er enghraifft, ystyried cadw bagiau tywod a chynfasau plastig wrth law i roi o flaen y mynedfeydd i'ch eiddo.

## Yn ystod llifogydd

### Camau ymarferol i'w cymryd:

- Gweithredu eich cynllun llifogydd personol.
- Cau'r cyflenwadau nwy a dŵr a diffodd y cyflenwad trydan
- Ffonio Floodline am yr wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer eich ardal chi.
- Gwrando ar orsafoedd radio/teledu lleol am y newyddion diweddaraf am y llifogydd.
- Symud deunyddiau gwerthfawr, lluniau ac eitemau sentimental i fyny'r grisiau.
- Symud rygiau a dodrefn ysgafn i fyny'r grisiau i fan diogel.
- Taflu llenni dros y rheilen allan o gyrraedd y llifddwr.
- Er mwyn atal y llifddwr rhag dod i mewn i'ch cartref, rhowch blygiau yn y sinciau a rhowch eitemau trwm ar eu pennau; rhowch lieiniau neu glytiau i mewn i fewnbibellau dŵr a datgysylltwch unrhyw offer sy'n defnyddio dŵr, h.y. peiriant golchi dillad, er mwyn osgoi ymchwydd.
- Dewch o hyd i'ch pecyn llifogydd a pharatowch i symud eich teulu a'ch anifeiliaid anwes i fyny'r grisiau i fan diogel gyda ffordd i ddianc.
- Ceisiwch osgoi cyffwrdd â llifddwr lle bo modd, gan y gall fod wedi'i halogi.
- Peidiwch â gadael eich cartref neu fynd i mewn i'r llifddwr heblaw y cewch gyfarwyddiadau uniongyrchol i wneud hynny gan y gwasanaethau brys. Gall llifddwr fod yn beryglus dros ben a gall guddio peryglon.

## Ar ôl llifogydd

### Beth i'w wneud:

- Y peth cyntaf i'w wneud yw holi'r gwasanaethau brys a yw hi'n ddiogel i fynd i mewn i'ch eiddo.
- Cymerwch ofal wrth fynd i mewn i'ch eiddo, gall fod peryglon cudd a achoswyd gan y llifogydd, fel difrod strwythurol a llygredd.
- Cymerwch luniau o'r difrod i'ch eiddo.
- Cysylltwch â'ch cwmnïau yswiriant adeilad a chynnwys cyn gynted ag y bo modd er mwyn darganfod pa mor hir y byddant yn ei gymryd i'ch gweld chi.
- Holwch a oes ganddyn nhw gwmni a fydd yn glanhau eich tŷ, neu a oes rhaid i chi wneud hyn eich hun.
- Holwch nhw cyn i chi daflu unrhyw eitemau wedi'u difrodi i ffwrdd.

### Clirio ar ôl llifogydd

- Gall llifogydd gynnwys carthffosiaeth a chemegolion, ac er ei fod wedi'i wanedu, dylech bob amser wisgo menig a dillad sy'n atal dŵr, esgidiau glaw a mwgwd.
- Defnyddiwch gynhyrchion cartref arferol i lanhau a diheintio eich eiddo.
- Defnyddiwch beipen ddŵr arferol i olchi arwynebau.
- Os ydych chi'n sychu eich eiddo'n naturiol, cadwch y ffenestri a'r drysau ar agor cymaint ag y bo modd.
- Os ydych chi'n defnyddio dadleithyddion, caewch yr holl ffenestri a drysau.
- Gwnewch yn siŵr fod trydanwyr a pheirianyddion cymwysedig yn gwirio eich offer trydanol a'ch system wresogi ganolog cyn i chi'u hailgynnau

## Mwy o wybodaeth

Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag amddiffyn eich cartref rhag llifogydd, yn ogystal ag arweiniad ynglŷn â'r hyn i'w wneud yn ystod ac ar ôl llifogydd, ewch i: www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Er mwy cysylltu ag aelod o dîm Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru, anfonwch neges e-bost at: Floodawareness.wales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
**F: 02920 466103**